



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Rhoi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith –

- ei gwneud yn orfodol i weithwyr gofal cartref gofrestru o 1 Ebrill 2020 a gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gyflogi a/neu gontractio gwasanaethau gan unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru;
- agor y gofrestr i weithwyr mewn gwasanaethau cartref gofal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o 1 Ebrill 2020;
- diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 i alluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, i gael gwybodaeth gan gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau neu bwyllgorau (ac eithrio awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol) wrth gofrestru fel darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig;
- defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y dylai Arolygiaeth Gofal Cymru (yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas ac yn briodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol, yn enwedig y broses orfodol o gofrestru gweithwyr gofal cartref ac agor cofrestr y gweithlu i gofrestru gwirfoddol gan weithwyr sy'n cael eu cyflogi neu sy'n gweithio dan gontract mewn gwasanaethau cartref gofal a ddaperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl oedolion) a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o 2020.

Mae'n gofyn hefyd am eich barn ar alluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, i gael gwybodaeth ychwanegol gan gyfarwyddwyr corff corfforaethol ac eithrio awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol wrth gofrestru darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig.

Mae'n gofyn hefyd am eich barn ar ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Arolygiaeth Gofal Cymru, yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, roi sylw iddi wrth benderfynu a yw peron yn addas ac yn briodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth.

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylech anfon eich ymateb i:

Cangen Polisi'r Gweithlu
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwelliant
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Fel arall, gallwch dychwelyd eich ffurflen wedi'i chwblhau atom, erbyn canol nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost at:

RISCAct2016@llyw.cymru neu RISCAct2016@gov.wales

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig Mae fersiynau MS Word, print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/wels_h

Cam 2 y broses o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith – agweddau yn ymwneud â'r gweithlu

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/170612consultation-documentcy.pdf>

Cam 2 y broses o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal

Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith – agweddau yn ymwneud â'r gweithlu

– crynodeb o'r ymatebion

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/171122responses-workforceen.pdf>

Gweddnewid gofal yn yr 21ain ganrif – ymgynghoriad Gofal

Cymdeithasol Cymru ar gofrestru

<https://gofalcymdeithasol.cymru/ymgynghoriadau/gweddnewid-gofal-yn-yr-21ain-ganrif>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1235/contents/made/welsh>

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr

Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/contents/made/welsh>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2018

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/192/contents/made/welsh>

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad: Gweler uchod

E-bost: RISCAct2016@llyw.cymru
RISCAct2016@gov.wales

Rhif ffôn: 03000 253228

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n

debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ymgynghoriad ar roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith – Cofrestru'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

1. Cefndir

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Pasiwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015, a derbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru - rheoleiddiwr y gweithlu.

Cafodd Deddf 2016 ei rhoi ar waith mewn tri cham:

- Roedd **Cam 1 (2016/17)** yn cynnwys rheoliadau'n ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu, a daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Yn ogystal â'r rhain, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru reolau a gweithdrefnau i reoli'r broses o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu, sydd wedi bod ar waith ers 3 Ebrill 2017.
- Roedd **Cam 2 (2017/18)** yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau disgwyledig ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol mewn lleoliadau gofal cartref a gofal preswyl i oedolion; lleoliadau gofal preswyl i blant; llety diogel i blant a Gwasanaethau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd. Hefyd, roedd yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â'r gweithlu mewn perthynas ag amlinellu amser teithio ac amser gofal, estyn y gofrestr i weithwyr gofal cartref a chyfyngu ar gontractau dim oriau. Daeth y rheoliadau hyn i rym ym mis Ebrill 2018.
- Roedd **Cam 3 (2018/19)** yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau disgwyledig ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol mewn Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu; Gwasanaethau Maethu; Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Cysylltu Bywydau); a Gwasanaethau Eirioli. Daeth y rheoliadau hyn i rym ym mis Ebrill 2019.

Cofrestru'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Man cychwyn y broses o gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol oedd Deddf Safonau Gofal 2000 (Deddf 2000), a'i gwnaeth yn ofynnol i gofrestru gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion a rheolwyr a gweithwyr cartrefi gofal i blant gyda'r corff a oedd yn gyfrifol am reoleiddio'r gweithlu ar y pryd, sef Cyngor Gofal Cymru. Hefyd, yn 2013 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddf i'w gwneud yn ofynnol i gofrestru rheolwyr gwasanaethau cymorth cartref, yn yr un modd â rheolwyr eraill yn y sector.

Yn ystod taith y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015, rhoddwyd ystyriaeth i gofrestru a phroffesiynoli grwpiau eraill o'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn meithrin

proffil y sector a gwella safonau ac ansawdd gofal. Ar sail y drafodaeth hon, fe wnaeth Llywodraeth Cymru sawl datganiad¹ yn nodi mai'r gweithwyr nesaf i'w cofrestru fyddai gweithwyr gofal cartref a gweithwyr mewn gwasanaethau cartref gofal rheoleiddiedig a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion.

Ym mis Ebrill 2018, daeth rheoliadau i rym er mwyn galluogi rheoleiddiwr newydd y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, i estyn cofrestr y gweithlu i gynnwys gweithwyr gofal cartref, dan drefn wirfoddol. Cyflwynwyd y newid hwn er mwyn rhoi cyfnod dwy flynedd i Gofal Cymdeithasol Cymru weithio gyda'r sector i ddeall a pharatoi ar gyfer y gofynion cofrestru, cyn cyflwyno trefn cofrestru gorfodol yn 2020.

Fel rhan o'r paratodau hyn, cynhaliodd Gofal Cymdeithasol Cymru gyfres o weithdai gyda chyflogwyr a gweithwyr cyflogedig ledled Cymru. Hefyd, mae wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn ymateb i bryderon y sector a hwyluso'r broses gofrestru. Mae hyn wedi cynnwys symleiddio'r broses cymhwysedd wedi'i gadarnhau a chyflwyno trydydd llwybr ar gyfer cofrestru. Bydd y gweithgareddau hyn yn parhau gydol 2019-20 er mwyn cofrestru cynifer o weithwyr â phosibl cyn bod y gofyniad yn orfodol.

Cofrestru darparwyr gofal cymdeithasol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae gan Weinidogion Cymru'r swyddogaeth o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Arolygiaeth Gofal Cymru, y rheoleiddiwr gwasanaethau sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth hon ar ran Gweinidogion Cymru. Sefydlodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 set ddiwygiedig o brosesau ar gyfer cofrestru darparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gofrestru yng Nghymru pan fydd y gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yng Nghymru, a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chymhwyso, amrywio a chanslo cofrestriad.

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig yng Nghymru wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan y ddeddfwriaeth newydd. Mae peth o'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cais i gofrestru wedi'i gosod ar wyneb Deddf 2016, o dan Adran 6. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau sydd i'w darparu, y manau y mae'r gwasanaethau i'w darparu ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy, dynodi unigolyn cyfrifol mewn perthynas â phob lle o'r fath ac enw a chyfeiriad pob unigolyn o'r fath.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 ("Y Rheoliadau Cofrestru") a gafodd eu gwneud o dan Adrannau 6(1)(d) a 6(2) o Ddeddf 2016, yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae gofyn ei chynnwys mewn cais, yn ogystal â ffurf y cais. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ei gynnal ar y Rheoliadau Cofrestru drafft yn 2016. Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Chwefror 2018 pan ddechreuodd y broses o ailgofrestru'r holl wasanaethau cartref gofal, gwasanaethau cymorth cartref, canolfannau teuluol preswyl a gwasanaethau llety diogel yng Nghymru. Mae mwy nag 80% o'r gwasanaethau hyn bellach wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2016.

¹ <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s45151/15%20October%202015.pdf> - lines 125 and 126.
<http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3488&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings#C259695>

2. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i ofal cymdeithasol fel sector o bwysigrwydd strategol cenedlaethol, ac mae wedi gwneud ymrwymiadau penodol i godi proffil a statws gweithwyr gofal cymdeithasol yn y ddogfen “Ffyniant i Bawb²,” er mwyn sicrhau bod gofal cymdeithasol yn dod yn ddewis gyrfa cadarnhaol, lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi mewn ffordd gyfrifol. Adlewyrchir hyn yng nghylch gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru ac ymgyrch “Gofalwn.Cymru” a lanswyd ym mis Mawrth. Ymgyrch sawl blwyddyn yw hon i ddenu, cadw a recriwtio gweithwyr ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, gofal plant a blynyddoedd cynnar. Nod yr ymgyrch yw dileu canfyddiadau anghywir ynglŷn â chyflogaeth yn y sector ac arddangos yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd sydd ar gael, er mwyn denu pobl i fwynhau gyrfa yn y sector, a'u cadw wedyn.

Wrth i fwy o fodolau iechyd a gofal di-dor newydd ddod i'r amlwg, mae “Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol³” yn cydnabod y bydd angen dull clir a chysylltiedig o ddatblygu a chynllunio'r gweithlu cyfan er mwyn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel ledled Cymru. I wneud hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol GIG Cymru, llywodraeth leol, y sectorau gwirfoddol ac annibynnol yn ogystal â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr addysg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod proffesiynoldeb y gweithlu gofal cymdeithasol, gweithio gyda'r sector i barhau i godi safonau ymarfer, a chynnal a chydabod pwysigrwydd gofal cymdeithasol.

Bydd cofrestru'r gweithlu yn helpu i gyflawni hyn, ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod unigolion sy'n gweithio yn y sector wedi cael hyfforddiant priodol ac yn derbyn cefnogaeth briodol. Yn y cyswllt hwn, rydym wedi estyn cofrestr y gweithlu ar sail wirfoddol i gynnwys gweithwyr gofal cartref cyn y bwriad i'w gwneud yn ofynnol i'w cofrestru ar ôl mis Ebrill 2020. Hefyd, rydym yn bwriadu gwneud hyn ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn 2020 cyn i'r system cofrestru gorfodol ddod i rym yn 2022. Hefyd, byddwn yn parhau i adolygu ac ystyried a oes angen cofrestru grwpiau ychwanegol o'r gweithlu gofal cymdeithasol.

O ran cofrestru gwasanaethau gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, mae mwy nag 80% o wasanaethau bellach wedi'u cofrestru o dan y ddeddfwriaeth newydd. Yn ystod y broses hon, fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth wedi nodi bwlch o ran yr unigolion y gallant ofyn am wybodaeth ganddynt er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn ag addasrwydd y rhai sydd am gofrestru i redeg gwasanaeth rheoleiddiedig. Fel y cyfryw, y bwriad yw diwygio'r Rheoliadau Cofrestru i'w gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau neu bwyllgorau (ac eithrio awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol) i ddarparu, fel rhan o'r cais i gofrestru, wybodaeth ychwanegol i'r Arolygiaeth am unrhyw geisiadau neu gofrestriadau blaenorol mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig mewn mannau eraill yn y DU. Mae'r wybodaeth y bydd ei hangen yn gyson â'r hyn sy'n

² https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol?_ga=2.180198564.1450119690.1563188408-1471361957.1563188408

³ <https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol>

ofynnol gan unigolion a sefydliadau sydd am gofrestru o dan baragraffau 13 i 22 o Atodlen 1 o'r Rheoliadau Cofrestru, ynghyd â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan unigolion cyfrifol o dan baragraff 23 o'r Atodlen honno.

Mae Adran 9 o Ddeddf 2016 yn nodi'r prawf ar gyfer asesu a yw darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol yn berson addas a phriodol i ymgymryd â'r swyddogaethau hynny.

Rydym yn bwriadu defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan Adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Arolygiaeth Gofal Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, dalu sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth. Byddai'r dystiolaeth newydd yn cynnwys a yw unrhyw un o gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau a phwyllgorau'r sefydliad sydd am gofrestru fel darparwr gwasanaeth naill ai wedi cyflawni'r troseddau a amlinellir yn adran 9(4) o Ddeddf 2016 neu wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig at ddibenion adran 9(6) o'r Ddeddf honno.

3. Yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y polisïau canlynol a'r rheoliadau drafft cysylltiedig i'w gweithredu:

- i. ei gwneud yn ofynnol i gofrestru pob gweithiwr gofal cartref o fis Ebrill 2020. Mae hyn yn gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth cartref i gyflogi a/neu roi contract am wasanaethau i unigolion sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhaid i unigolion a gyflogir gan wasanaeth cymorth cartref gael eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn chwe mis i gychwyn ar eu cyflogaeth;
- ii. agor cofrestr y gweithlu ar sail wirfoddol i gynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi neu sydd dan contract ar gyfer gwasanaethau cartref gofal rheoleiddiedig a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen cyn y dyddiad cau gofynnol yn 2022. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull o gofrestru gweithwyr gofal cartref er mwyn helpu i reoli'r broses gofrestru a sicrhau bod rheoleiddiwr y gweithlu yn gallu ymgysylltu â'r sector. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau ein bod yn dysgu o'r profiad o estyn y gofyniad i gofrestru i gynnwys gweithwyr gofal cartref;
- iii. diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Cofrestru") i'w gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau neu bwyllgorau unrhyw sefydliad sy'n gwneud cais (ac eithrio awdurdod lleol neu fwrdd iechyd) i ddarparu gwybodaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw geisiadau cofrestru blaenorol a chofrestriadau gwasanaeth rheoleiddiedig yn y DU, yn ogystal â gwybodaeth adnabod berthnasol. Dyma'r wybodaeth sy'n ofynnol ar hyn o bryd ym mharagraffau 13 i 23 o Atodlen 1 o'r Rheoliadau Cofrestru;
- iv. defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Arolygiaeth Gofal Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth. Byddai'r dystiolaeth newydd yn

cynnwys a yw unrhyw un o'r cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau neu bwyllgorau'r sefydliad sy'n ceisio cofrestru fel darparwr gwasanaeth naill ai wedi cyflawni'r troseddau a amlinellir yn adran 9(4) neu wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig at ddibenion adran 9(6).

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio ein hystyriaeth o'r rheoliadau terfynol ac unrhyw ganllawiau ategol. Rydym yn bwriadu dadansoddi'ch ymatebion dros yr hydref ac ystyried unrhyw newidiadau posibl cyn llunio a chyflwyno'r rheoliadau tua dechrau mis Ionawr 2020 yn barod i'w gweithredu ym mis Ebrill 2020.

Amlinellir y cynigion manwl isod.

4. Y cynigion

- 1. Rydym yn bwriadu creu rheoliad a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi unigolion neu ymrwymo i gcontract gydag unigolion am wasanaethau fel gweithwyr gofal cartref sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o 2020 ymlaen [Atodiad A]**

Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i wasanaethau cymorth cartref yn unig.

Mae'r gofyniad i gofrestru gweithwyr gofal cartref yn ymateb i gefnogaeth eang gan y sector i estyn y broses gofrestru ledled y gweithlu. Y bwriad yw gwella sicrwydd ar gyfer y cyhoedd, helpu i broffesiynoli'r gweithlu, a gwella ansawdd gofal a chymorth yn y pen draw.

Bydd y broses o gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu yn darparu mwy o gymorth i weithwyr, gan sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar yr adnoddau hyfforddi a datblygu amrywiol y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'u cynhyrchu i helpu gweithwyr i ddiweddarau eu hymarfer, datblygu meysydd gwybodaeth fel gofal dementia, neu symud i wneud gwaith rheoli.

Hefyd, mae'r broses o gofrestru gweithwyr gyda chorff rheoleiddio cydnabyddedig yn rhoi mwy o hyder i'r rhai sy'n derbyn gofal, eu teuluoedd a'u ffrindiau, bod gweithwyr yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau i wneud eu gwaith mewn ffordd broffesiynol a thosturiol, a'u bod yn gweithio yn unol â Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol y cytunir arnynt.

Os nad yw gwasanaethau yn bodloni gofynion y rheoliadau newydd hyn, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu yn unol â'r 'Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi' sy'n cynnwys dull gweithredu graddol o sicrhau gwelliant. Bydd unrhyw gamau gweithredu yn gymesur â'r amgylchiadau, y canlyniadau i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'r perygl iddynt, a chymhwysedd a gallu'r darparwr i ymateb. Bydd darparwyr sy'n methu'n gyson i gydymffurfio â'r rheoliadau yn wynebu camau gorfodi cynyddol.

Bydd y rheoliad hwn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ('Rheoliadau

2017'), er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref gyflogi a/neu ymrwymo i gcontract gyda gweithwyr gofal cartref sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae hyn yn ategu darpariaethau sydd eisoes ar waith ar gyfer cyflogi rheolwyr cartrefi gofal i oedolion, rheolwyr gofal cartref a rheolwyr a gweithwyr cartrefi gofal i blant.

O dan y cynigion, o fis Ebrill 2020 ymlaen, bydd y ofynnol i gyflogeion newydd gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn chwe mis i gychwyn cyflogaeth, ac er mwyn gwneud hynny, bydd angen iddynt ennill y cymwysterau a bennwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru fel rhan o'r gofynion cofrestru. Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i'r rhai a gymerir ar gcontract (e.e. gweithwyr asiantaeth). Aeth Gofal Cymdeithasol Cymru ati i ymgynghori ar wahân ar ofynion y cymwysterau hyn cyn i'r gofrestr gael ei hagor i weithwyr gofal cartref ym mis Ebrill 2018.

Ni fydd yn ofynnol i wirfoddolwyr gofrestru. Ni fydd yn ofynnol i bobl sy'n darparu gofal a chymorth fel unigolion heb unrhyw ymwneud gan asiantaeth gyflogaeth neu fusnes cyflogaeth (h.y. cynorthwyyr personol) gofrestru.

Hefyd, rydym yn bwriadu osgoi cofrestru deul unrhyw weithwyr proffesiynol, fel nyrsys neu therapyddion galwedigaethol, sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cymorth cartref yn rhinwedd eu proffesiwn rheoleiddiedig. Mae'r proffesiynau hyn eisoes wedi'u cofrestru gyda rheoleiddwyr eraill y gweithlu, fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol, sy'n rheoleiddio ymddygiad eu haelodau.

Yr eithriad i'r rheol hon yw unigolion, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, sy'n cael eu cyflogi fel rheolwyr gofal cartref ac sy'n gorfod cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a bod â'r cymhwyster rheoli priodol.

2. Rheoliad sy'n estyn cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys yr unigolion a gyflogir neu yr ymrwymir i gcontract gyda hwy i ddarparu gofal a chymorth mewn gwasanaethau cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) a chanolfannau preswyl i deuluoedd ar ôl 2020 [Atodiad B]

Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i wasanaethau cartref gofal i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

Amcan y polisi yw ei gwneud yn ofynnol i gofrestru gweithwyr gofal preswyl i oedolion. Unwaith eto, mae hyn yn ymateb i gefnogaeth gan y sector ar gyfer estyn y broses gofrestru ledled y gweithlu. Bydd hyn yn darparu rhagor o sicrwydd i'r cyhoedd, yn helpu i broffesiynoli'r gweithlu ac yn gwella ansawdd gofal a chymorth. Er mwyn hwyluso cofrestru gorfodol, bydd y gofrestr yn agor ar sail wirfoddol yn y lle cyntaf i weithwyr gofal preswyl i oedolion sydd eisoes yn bodloni'r gofynion cofrestru penodedig.

Mae'r diffiniad arfaethedig yn cynnwys unrhyw unigolyn sy'n gweithio mewn gwasanaethau cartref gofal rheoleiddiedig a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion neu wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, gan gynnwys y rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaeth rheoleiddiedig a'r rhai sy'n gweithio dan gcontract i wasanaeth cofrestredig, fel staff asiantaeth a staff cronfa. **Ni fydd**, fodd bynnag, yn cynnwys unrhyw nyrsys na gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol

eraill a gyflogir yn rhinwedd eu swydd broffesiynol fel nyrs, seicolegydd, therapydd galwedigaethol, deietegydd ac ati.

Rydym yn ymwybodol bod hyn yn creu rhywfaint o anghysondeb â'r gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr a gyflogir gan wasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant, neu leoliad llety diogel, gan nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd i unigolion sy'n gweithio fel staff asiantaeth neu staff cronfa mewn unrhyw un o'r lleoliadau hyn gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gweithlu, byddem yn croesawu barn rhanddeiliaid ynghylch a ddylem fanteisio ar y cyfle hwn i gynnwys gweithwyr asiantaeth a staff cronfa sy'n darparu gwasanaethau i wasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant neu leoliad llety diogel o dan y rheoliadau hyn, neu gynnal trafodaeth bellach ynaglŷn ag effeithiau hynny. Mae cwestiwn am hynny wedi'i gynnwys yn yr adran berthnasol isod.

Rydym yn bwriadu cynnwys amser arweiniol ymarferol o ddwy flynedd, yn unol â'r hyn a ddarparwyd ar gyfer gweithwyr gofal cartref. Bydd hyn yn sicrhau bod gan weithwyr ddigon o amser i ymgyswddo a chydymffurfio â'r gofynion cofrestru, gan gynnwys y safonau y bydd angen iddynt eu bodloni a'r cymwysterau y bydd angen iddynt eu profi neu eu hennill. Hefyd, mae angen digon o amser i ychwanegu gweithwyr at y gofrestr dros gyfnod realistig o amser.

Bydd Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016⁴ yn cael eu diwygio i alluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i estyn cofrestr y gweithlu i gynnwys gweithwyr gwasanaethau cartref gofal i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen. Cyflwynir set arall o reoliadau yn ymwneud â chofrestru gorfodol o 2022 ymlaen.

3. Gwybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas â sefydliad sy'n ceisio cofrestru fel darparwr gwasanaeth.

Mae paragraffau 13 i 22 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Cofrestru yn ei gwneud yn ofynnol ar hyn o bryd i bob ymgeisydd sy'n cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Manylion unrhyw geisiadau blaenorol i gofrestru fel darparwr gwasanaeth o dan y Ddeddf.
- Manylion unrhyw gofrestriadau fel darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf 2016.
- Manylion unrhyw gais blaenorol i gofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.
- Manylion unrhyw gofrestriadau o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.
- Manylion unrhyw geisiadau blaenorol i gofrestru fel darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008.
- Manylion unrhyw gofrestriadau fel darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008.

⁴ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1235/pdfs/wsi_20161235_mi.pdf

- Manylion unrhyw geisiadau blaenorol i gofrestru fel person sy'n darparu gwasanaeth gofal o dan Ran 5 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010.
- Manylion unrhyw gofrestriadau fel person sy'n darparu gwasanaeth gofal o dan Ran 5 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010.
- Manylion unrhyw geisiadau blaenorol i gofrestru o dan Ran 3 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003.
- Manylion unrhyw gofrestriadau o dan Ran 3 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003.

Yn ogystal, mae paragraff 23 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Cofrestru yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth adnabod benodol mewn perthynas â'r Unigolyn Cyfrifol dynodedig, sef:

- Dyddiad geni, rhif ffôn, cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth a chyfeiriad post electronig pob unigolyn a ddynodir gan yr ymgeisydd i fod yn unigolyn cyfrifol.

Rydym yn bwriadu estyn y gofynion hyn i gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau neu bwyllgorau'r sefydliad sy'n gwneud cais (ac eithrio awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol), wrth wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig fodloni gofynion pwysig o dan Ddeddf 2016 a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Yn achos sefydliad, gall rhai penderfyniadau allweddol yn ymwneud â'i waith gael eu gwneud ar y cyd, gan fwrdd neu ddull cyfatebol, ac felly mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn credu bod addasrwydd cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodau byrddau neu bwyllgorau sefydliad sy'n ceisio cofrestru yn ffactor pwysig wrth wneud penderfyniad ar gais y sefydliad hwnnw i gofrestru fel darparwr gwasanaeth.

Mae Adran 9 o Ddeddf 2016 yn nodi prawf ar gyfer asesu a yw darparwr gwasanaeth ac unigolyn cyfrifol yn berson addas a phriodol i fod yn y swyddogaethau hynny. Rydym felly yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan adran 9(9) i bennu bod Arolygiaeth Gofal Cymru, wrth asesu addasrwydd ar ran Gweinidogion Cymru, yn rhoi sylw hefyd i unrhyw dystiolaeth a allai ddangos bod cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodau o fyrddau neu bwyllgorau sefydliad sy'n ceisio cofrestru naill ai neu wedi bod yn gyfrifol am unrhyw un o'r troseddau a amlinellir yn adran 9(4) o Ddeddf 2016 neu wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio ein penderfyniad ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn.

Atodiad A

Geiriad drafft Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2020

Enwi , cychwyn a dehongli

1. — (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020.
 - (2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.
 - (3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2017" yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017⁽⁵⁾.

Diwygio Rheoliadau 2017

2. — (1) Mae Rheoliadau 2017 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
 - (2) Yn rheoliad 1(3) (dehongli), mewnosoder y canlynol yn y lle priodol—

"ystyr "nyrs" ("*nurse*") yw nyrs gymwysedig, bydwaig gymwysedig neu gydymaith nyrsio cymwysedig sydd wedi ei chofrestru neu ei gofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001⁽⁶⁾;"

"mae i "proffesiynolyn cofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered professional" ym mharagraff 1 o Atodlen 3 i Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2002⁽⁷⁾;"
 - (3) Yn rheoliad 35 (addasrwydd staff)—
 - (a) ym mharagraff (2)—
 - (i) yn is-baragraff (f), ar y dechrau mewnosoder "yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn,";
 - (ii) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

"(g) yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn, pan fo person wedi ei gyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) neu wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i weithio yn

⁽⁵⁾ O.S. 2017/1264 (Cy. 295), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/757 (Cy. 142).

⁽⁶⁾ O.S. 2002/253, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/838 ac O.S. 2009/1182; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

⁽⁷⁾ O.S. 2002/254, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/2033, O.S. 2010/233, O.S. 2004/2033, O.S. 2009/1182 a 2012 (p. 7); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

rhinwedd ac eithrio fel rheolwr, i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwasanaeth cymorth cartref, fod y person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn achos personau sydd wedi eu cyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) heb fod yn hwyrach na'r dyddiad perthnasol (gweler paragraff (8) am ystyr "y dyddiad perthnasol").";

(b) ym mharagraff (8), ar ôl "(2)(f)" mewnosoder "ac (g)";

(c) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(11) Nid yw'r gofyniad bod person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â rheoliad 35(2)(f) ac (g) yn gymwys pan fo'r person wedi ei gyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) neu ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i weithio fel—

(a) nyrs, neu

(b) proffesiynolyn cofrestredig."

Atodiad B

Geiriad drafft Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020

Enwi, cychwyn a dehongli

1. — (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020.
 - (2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.
 - (3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2016" yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016().
Diwygio Rheoliadau 2016
2. — (1) Mae Rheoliadau 2016 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
 - (2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd" ("residential family centre service") yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(1)(c) o'r Ddeddf a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi, yn ddarostyngedig i reoliad 4 o Reoliadau 2017();";

"mae i "gwasanaeth cartref gofal" ("care home service") yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(1)(a) o'r Ddeddf a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, yn ddarostyngedig i reoliad 2(1) o Reoliadau 2017;"
 - (3) Yn rheoliad 3(2) (pennu gweithwyr gofal cymdeithasol)—
 - (a) yn is-baragraff (b)(i), hepgorer "o fewn ystyr Rhan 1 o'r Ddeddf";
 - (b) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—
 - (e) sydd wedi eu cyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr), neu sydd wedi eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau er mwyn darparu gofal a chymorth gan ddarparwr gwasanaeth sy'n darparu—
 - (i) gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion, neu
 - (ii) gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd."

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:	
Sefydliad (os yw'n berthnasol):	
E-bost / Rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

Mae'n debygol y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech chi i ni gadw eich ymateb yn ddiennw, ticiwch yma:

Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr gofal cartref sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]

C.1. A ddylai gweithwyr asiantaeth gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal cartref?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Eglurwch:			

Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr gofal cartref sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]

C.2. A ddylai gwirfoddolwyr gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal cartref?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Eglurwch:			

--

Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr gofal cartref sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]

C.3. A ddylem wneud cofrestru deul yn ofynnol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cymorth cartref wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u cofrestru proffesiynol, os ydynt eisoes wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr arall y gweithlu?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i Gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi gweithwyr gofal cartref sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru [Atodiad A]

C.4. A oes angen darparu unrhyw ganllawiau i helpu gwasanaethau cymorth cartref i gydymffurfio â'r gofynion cofrestru? Os felly, pa fath o ganllawiau sydd eu hangen yn eich barn chi?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

Rheoliad sy'n estyn cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cartref gofal i oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen [Atodiad B]

C.5. A yw'r rheoliadau a'r diffiniadau drafft amgaeedig yn ddigon clir a chynhwysfawr i gyflwyno'n effeithiol y broses o gofrestru gwirfoddol ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

Rheoliad sy'n estyn cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cartref gofal i oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) a chanolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen [Atodiad B]

C.6. Ydych chi'n credu bod cynnod dwy flynedd o 2020 ymlaen ar gyfer cofrestru'n wirfoddol yn ddigon i hwyluso'r broses orfodol o gofrestru gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd erbyn 2022?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

Rheoliad sy'n estyn cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cartref gofal i oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) a chanolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen [Atodiad B]

C.7. A ddylem wneud cofrestru deuol yn ofynnol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cartref gofal i oedolion neu ganolfan preswyl i deuluoedd wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u cofrestru proffesiynol (e.e. nyrs neu therapydd galwedigaethol), os ydynt eisoes wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr arall y gweithlu?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i	Anghytuno
--------	-----------------	----------	-----------

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	anghytuno <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Eglurwch:			

Rheoliad sy'n estyn cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cartref gofal i oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) a chanolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen [Atodiad B]			
C.8. A ddylai'r gofyniad i gofrestru fe gweithiwr mewn canolfan breswyl i oedolion neu mewn canolfan breswyl i deuluoedd gael ei estyn i weithwyr asiantaeth yn y gwasanaethau hyn?			
Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Eglurwch:			

Rheoliad sy'n estyn cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cartref gofal i oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) a chanolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen [Atodiad B]			
C.9. A ddylem eithrio gwirfoddolwyr rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal preswyl i oedolion neu mewn canolfannau preswyl i deuluoedd?			
Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
Eglurwch:			

Rheoliad sy'n estyn cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cartref gofal i oedolion (h.y. gweithwyr gofal preswyl i oedolion) a chanolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen [Atodiad B]

C.10. Er mwyn sicrhau cysondeb, a ddylem estyn y cynigion hefyd i osgoi cofrestru deul ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cartref gofal ar gyfer plant?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

C.11. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gofrestr, a ddylem estyn y gofyniad fel bod staff asiantaeth a gyflogir gan wasanaeth cartref gofal i blant a gwasanaeth llety diogel yn cael eu cynnwys ar y gofrestr?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

Galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru i ofyn am wybodaeth ychwanegol gan unrhyw swyddog mewn sefydliad sy'n ceisio cofrestru fel gwasanaeth gofal rheoleiddiedig.

C.12. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 i alluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, i gael gwybodaeth gan gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau neu bwyllgorau (ac

eithrio awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol) wrth gofrestru fel darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

Gwneud rheoliadau o dan adran 9(9) mewn perthynas â thystiolaeth o addasrwydd darparwr gwasanaeth.

C.13. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y dylai Arolygiaeth Gofal Cymru (yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch:

Cwestiynau Eraill

Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru ddeall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodi a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

C.14. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

Q.15. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

C.16. Hoffem wybod eich safbwyntiau ar yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar y Gymraeg, ac yn benodol o ran:

- i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C.17. Beth ydych chi'n credu fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

C.18. Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid ffurfio'r cynigion arfaethedig neu eu newid er mwyn:

- i) cael effeithiau cadarnhaol (neu ragor o effeithiau cadarnhaol) o ran y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol o ran y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi eu trafod yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w cofnodi.